OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 632 (Cy.92)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011

Gwnaed - - - -	*2 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*25 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mawrth 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(a) mae'r term "etholaeth Cynulliad" ("*Assembly constituency*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(b) mae'r term "rhanbarth etholiadol Cynulliad" ("*Assembly electoral region*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dirymu

3. Dirymir Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006(**3**).

(**1**) O.S. 2007/236.
(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.
(**3**) O.S. 2006/3268 (Cy.298).

Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy

4. Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 1.

Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen

5.—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r gwasanaethau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 1.

(2) Y gwasanaethau yw—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau mewn perthynas â'r etholiad.

Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen

6.—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r treuliau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 1.

(2) Y treuliau yw—

(a) penodi a thalu ffioedd i bersonau sy'n cynorthwyo'r swyddog canlyniadau;

(b) ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth a dynnir gan unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau a chan y swyddog canlyniadau;

(c) argraffu neu gynhyrchu papurau pleidleisio;

(ch) argraffu a dosbarthu papurau pleidleisio drwy'r post;

(d) argraffu a dosbarthu cardiau pleidleisio;

(dd) argraffu a chyhoeddi'r holl hysbysiadau a dogfennau etholiad;

(e) rhentu ac addasu mangreoedd i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio neu ganolfannau cyfrif, gan gynnwys gwresogi, goleuo, glanhau, ac adfer yr adeilad neu'r ystafell i'r cyflwr gwreiddiol;

(f) darparu a chludo'r holl gyfarpar angenrheidiol ar gyfer cynnal yr etholiad a'r cyfrif;

(ff) darparu'r holl gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a meddalwedd, a chostau cysylltiedig;

(g) darparu diogelwch a storio dogfennau etholiadol yn ddiogel yn ystod cyfnod yr etholiad;

(ng) cynnal y gwirio a'r cyfrif;

(h) darparu a chael hyfforddiant;

(i) costau eitemau amrywiol, na roddir cyfrif amdanynt mewn man arall, megis deunyddiau ysgrifennu, postio, ffonio, argraffu a chyfieithu.

Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy

7. Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 2.

Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen

8.—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r gwasanaethau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth etholiadol Cynulliad yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Y gwasanaethau yw—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn perthynas â'r etholiad.

Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen

9.—(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r treuliau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth etholiadol Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Y treuliau yw—

(a) penodi a thalu ffioedd i bersonau sy'n cynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(b) ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth a dynnir gan unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol a chan y swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(c) argraffu a chyhoeddi hysbysiadau;

(ch) paratoi'r papur pleidleisio;

(d) costau eitemau amrywiol, na roddir cyfrif amdanynt mewn man arall, megis deunyddiau ysgrifennu, postio, ffonio, argraffu a chyfieithu.

Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad etholaeth Cynulliad nas ymleddir

10. Mewn etholiad etholaeth Cynulliad nas ymleddir—

(a) nid yw erthyglau 4 i 6 yn gymwys; a

(b) y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a threuliau yw £1,750 (un fil a saith gant a hanner o bunnoedd) am bob etholaeth.

Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad nas ymleddir

11. Mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad nas ymleddir—

(a) nid yw erthyglau 7 i 9 yn gymwys; a

(b) y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a threuliau yw £350 (tri chant a hanner o bunnoedd) am bob rhanbarth.

Carl Sargeant
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2011